

Cyngor Tref Criccieth

Cofnodion cyfarfod y Cyngor Tref a gynhaliwyd ar **nos Fawrth 15 Rhagfyr 2020 am 7.00 o'r gloch**. Cynhaliwyd y cyfarfod hwn o bell gan ddefnyddio technoleg fideo.

1-12/20: Presennol

Cadeirydd : Cyng. Robert Cadwalader

Cyng. Ffion Gwyn; Cyng. Angela Hughes, Cyng. Dr Peter Harlech Jones; Cyng. Phil Jones; Cyng. Robert T Price; Cyng. Alice Roberts; Cyng. Eirwyn Williams;

Clerc – Dr Catrin Jones.

2-12/20 Ymddiheuriadau:

Cyng. Nan Davies Hughes; Cyng. Wayne Roberts; Cyng. Sian Williams;

3-12/20: Datgan diddordeb

5-12/20 Cadarnhau ac arwyddo cofnodion cyfarfod Tachwedd 2020

Cadarnhawyd a llofnodwyd y cofnodion yn unol â'r gyfraith.

6-12/20 Eitemau brys ac er gwybodaeth (trwy law'r Cadeirydd/Clerc)

Materion er gwybodaeth yn unig – ni chaniateir penderfyniadau

7-12/20: Gohebiaeth

1. Cyngor Gwynedd – Covid-19 – ymateb re biniau i'r dref

Dal dim ymateb gan Swyddog Cyngor Gwynedd re biniau i'r dref. Nodwyd bod prinder staff dros y gwyliau yn golygu newid i'r drefn casglu gwastraff yn y dref ar 28 Rhagfyr. Roedd trigolion wedi derbyn llythyr am hyn.

Penderfyniad

Derbyn er gwybodaeth

2. Cais am gael Camera Cylch Cyfyng- Lôn Parc, Criccieth

Aros am adroddiad yn ôl gan Swyddog yr Heddlu.

Penderfyniad

Derbyn yr adroddiad.

3. Cyngor Gwynedd: Ymgynghoriad ar ysgol newydd Criccieth

Roedd manylion yr ymgynghoriad wedi ei gylchredeg. Yn dilyn cyfres o gyfarfodydd gyda Phanel Adolygu Lleol i drafod opsiynau posib ar gyfer ysgol newydd yng Nghriccieth, penderfynodd Cabinet Cyngor Gwynedd mewn cyfarfod ar 13 Hydref 2020 i ymgymryd â phroses ymgynghori statudol, yn unol â gofynion adran 48 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, ar y cynnig i gynyddu capasiti Ysgol Trefferthyr i 150 ac adleoli'r ysgol i safle newydd, cyfeirir ato fel safle A497, ar 1 Medi 2023.

Roedd y cyfnod ymgynghori statudol yn rhedeg o 6 Tachwedd 2020 tan 1:00 y.h. ar 18 Rhagfyr 2020 ac wedi cael ei bostio ar Hwb Criccieth a Safle We'r Cyngor Tref.

Penderfyniad

Roedd y Cyngor Tref eisoes wedi danfon sylwadau am gonsyrn mawr am lefel y traffig a'r cyflymder yn yr ardal ac y dylid ymestyn y cynllun i ddefnyddio'r lay by ar gyfer ail-gyflunio'r ardal ac i gael cylchfan/"roundabout". Roedd yn bwysig iawn gwneud y lle mor ddiogel â phosib gan nodi y byddai nifer yn cerdded i'r Ysgol yn ogystal â theithio iddo mewn ceir. Ym marn y Cyngor Tref, nid oed cau'r layby yn ddigonol ar gyfer sicrhau diogelwch y cyhoedd. Nid oedd gan y Cyngor Tref ddim i'w ychwanegu i'r ymgynghoriad.

4. Cyngor Gwynedd – Grant i wella amgylchedd ffisegol ein trefi

Roedd papur yn cynnig argymhellion ar gyfer defnydd o'r grant yng Nghriccieth wedi ei gylchredeg. Roedd y grant cyfredol o dan sylw yng ngofal Cyngor Gwynedd ac yn gyfle gwych i gefnogi'n Cynllun Cymunedol drwy wella amgylchedd ffisegol ein tref. Roedd y Clerc wedi cyflwyno'r syniadau yn barod i Gyngor Gwynedd ac wedi cael adborth am bosibiliadau ar gyfer tirweddu ger y Swyddfa Bost a hefyd i osod copïau o Fap y dref ar fyrddau mewn lleoliadau penodedig. Nid oedd cyllid digonol ar gyfer creu'r piazza ger y Maes ond mae hwn yn fater o ddiogelwch i'r cyhoedd fel sydd wedi ei adrodd i Gyngor Gwynedd.

Penderfyniad

Y Cadeirydd, y Cyng. Phil Jones a'r Cyng. Ffion Gwyn i weithio ar gael costau ar gyfer cynlluniau ar gyfer tirweddu ger y Swyddfa Bost i greu gofodau deniadol a chymdeithasol. Roedd costau ar gyfer gosod y map. Diolchwyd i'r Cyng. Ffion Gwyn am greu'r byrddau syniadau ar gyfer y tirweddu.

5. Cyngor Gwynedd - Meysydd Chwarae Plant

Roedd y Clerc wedi bod mewn cysylltiad gyda Swyddog Cyngor Gwynedd ac o ganlyniad mae yna ystyriaeth ar gyfer gosod cyfarpar chwarae newydd i Golff Bach. Nid oedd modd ystyried y parc yn Tŷ'n Rhos gan nad oedd lle yna i gyfarpar newydd.-

Penderfyniad

Diolch i'r Clerc am yr adroddiad ac aros am benderfyniad gan Gyngor Gwynedd.
Cytunwyd y dylid, maes o law, paratoi cynlluniau ar gyfer ymestyn y parc chwarae yn Tŷ'n Rhos i'w cyflwyno i Gyngor Gwynedd.

6. Un Llais Cymru – Rhaglen Hyfforddiant Rhagfyr 2020

Roedd y cyrsiau wedi eu cylchredeg

Penderfyniad

Aelodau i roi gwybod i'r Clerc os oeddynt am gofrestru.

7. Un Llais Cymru – Canlyniadau Arolwg Aelodaeth

Roedd yr adroddiad wedi ei gylchredeg.

Penderfyniad:

Derbyn er gwybodaeth

8. Llywodraeth Cymru – Swm Priodol o dan Adran 137 (4) (a) Terfyn ar gyfer 2021-22

Roedd y llythyr a oedd wedi ei gylchredeg yn rhoi manylion am y gallu i wario £8.41 am bob etholwr - 1278 o etholwyr yng Nghriccieth ar 1 Rhagfyr 2020. Felly gellir gwario swm o £10,747.98.

Penderfyniad

Derbyn er gwybodaeth

9. Elusen dementia Playlist for Life

Roedd manylion yr elusen wedi ei gylchredeg

Penderfyniad

Dylai'r Cyngor Tref gofrestru.

7-12/20 Ceisiadau cynllunio

1. C20/0975/35/DT Cais ar gyfer ymestyn a gwneud newidiadau i'r eiddo presennol Crud yr Awel, Cae Rhys Criccieth Gwynedd, LL52

Penderfyniad

Dim gwrthwynebiad

2. C20/0348/35/TC Defnyddio tir ar gyfer gwerysyla / glampio amgen parhaol. Tir ger Coedwig Coed Mawr Criccieth, LL52 OND

Penderfyniad

I ddanfôn sylwadau: i gadarnhau sylwadau'r Cyngor Tref a ddanfônwyd ar gyfer y cais gwreiddiol, sef consyrn am broblem traffic trwm a bod y fynedfa reit ar gornel y ffordd.

3. C20/1000/35/DT Cais ar gyfer codi estyniad a balconi ar flaen yr eiddo Llwyn Helyg, 11 Gwaun Ganol, Criccieth LL52 0TB

Penderfyniad

Dim gwrthwynebiad.

8-12/20 Llenwi sedd wag y Cyngor

Nodwyd nad oedd cais wedi dod am etholiad - felly roedd rhaid gosod rhybudd priodol wedi bod y Cyngor Tref yn bwriadu llenwi'r sedd drwy gyfethol drwy lythyr/e-bost i'r Clerc.

Penderfyniad:

Gosod rhybudd bod y Cyngor Tref yn bwriadu llenwi'r sedd drwy gyfethol ac i wahodd ceisiadau drwy lythyr/e-bost i'r Clerc erbyn 31 Ionawr 2021.

9-12/20: Cofnodion Is-bwyllgor Cyllid, Polisi a Rheolaethol 24 Tachwedd 2020 i gynnwys Cyllideb Ddrafft 2021-22 a Gosod Praesept 2021-22

Roedd angen derbyn diweddariad adroddiad cyllid 2020-21 a thrafod argymhellion o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Tachwedd:

1. 6/11/20 Adroddiad Cyllid 2020-2021

Penderfyniad: Derbyn yr adroddiad

2. 7-11/20 Offer swyddfa - lap top newydd

Penderfyniad: Derbyn yr argymhelliad i brynu lap top newydd. Bydd y Clerc yn cyflwyno cost ar gyfer lap top newydd, i gynnwys cyflenwyr posib lleol. Cytunwyd i ddirprwyo dewis o gyflenwr i'r Cadeirydd a'r Clerc.

3. 8-11/20 Cyllideb Ddrafft 2021-22

Trafodwyd y materion canlynol ar gyfer gosod cyllideb ddrafft 2021-22 gan gynnwys gosod lefel y praesept ar gyfer y flwyddyn honno:

- **Adroddiad Drafft Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol aelodau Cynghorau Cymuned a Thref**

Roedd yn rhaid i Gynghorau rhoi taliad yn ôl o'r costau gofal ar gyfer plant ac oedolion sy'n ddibynnol er mwyn caniatáu aelodau ymgymryd â'i dyletswyddau a hefyd lwfans o £150 yr aelod (does dim rhai i gynghorwyr dderbyn y tal).

Costau Cynghorwyr - ar gyfer adroddiad lwfansau uchod £150 yr aelod = 12 x £150 = £1800

Penderfyniad: Os na fydd aelod yn hysbysu'r swyddog priodol yn ysgrifenedig nad ydynt am ei gymryd i dalu'r £150 i aelodau tuag at ddiwedd y flwyddyn ariannol.

- Cronfa Cadeirydd Cyngor Tref Criccieth
Ar hyn o bryd, mae'r Cyngor yn rhoi- £200 y Flwyddyn i Gronfa'r Cadeirydd a chostau treuliau teithio/parcio. Roedd hawl gan y Cyngor dalu fyny at £500 yr un i hyd at 5 person am swyddogaethau penodedig. Mae hyn yn ogystal â'r £150 ar gyfer costau.
Pennwyd lefel taliadau ar gyfer lwfans teithio ac aros dros nos a hefyd colled ariannol oherwydd mynychu dyletswyddau.
Penderfyniad: i barhau i dalu £200 i gronfa'r Cadeirydd ac i ad-dalu lwfans teithio ac aros dros nos a nodwyd yn yr adroddiad a hefyd colled ariannol oherwydd mynychu dyletswyddau i Gynghorwyr lle mae colled o'r fath wedi ei hysgwyddo mewn gwirionedd o ganlyniad i fod yn bresennol i gyflawni dyletswydd gymeradwy.
- Costau cyfieithu
Penderfyniad £3K
- Yswiriant
Penderfyniad: £2k
- Costau rhedeg toiledau cyhoeddus Criccieth £6k
Penderfyniad: i barhau i dalu'r cyfraniad at gostau rhedeg y toiledau cyhoeddus i Gyngor Gwynedd yn 2021/22.
- Costau torri gwair £5k
Penderfyniad: i barhau i dalu'r cyfraniad at doriadau gwair ychwanegol i Gyngor Gwynedd
- Cyllideb ar gyfer cynllun Cymunedol
Roedd y Cyngor wedi neilltuo swm ar gyfer y Cynllun Cymunedol – roedd yn debygol na fyddai wedi gwario hwn eleni – felly byddai angen cario swm sydd heb ei wario drosto i 2021/22 – edrych yn debygol y bydd £14k ar gael.
Penderfyniad: £14K
- Goleuadau Nadolig
Penderfyniad
Y dylid neilltuo £5,000 at gostau'r goleuadau ar gyfer 2021-22.
- Gwariant o dan 137(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol sy'n caniatáu gwariant ar weithgarwch nad oes ganddo bwerau penodol yn ei gylch a hefyd at ddibenion elusennol. Gweler cofnod uchod.
Penderfyniad - i neilltuo swm o £5k i'r Neuadd Goffa (o dan bŵer S145) ac i ychwanegu £5k ar gyfer elusennau eraill o dan y swm a ganiateir gan 137(4).

Penderfyniad

I gymeradwyo'r gyllideb ddrafft (gweler atodiad 1). Byddai modd addasu'r gyllideb a chytuno ar gyllideb derfynol ym Mis Mawrth/Ebrill.

4. Roedd angen penderfynu ar y praesept ar gyfer 2021-22. Roedd e-bost wedi dod gan Gyngor Gwynedd ar 21/11 yn gofyn am fanylion erbyn 27 Ionawr 2021 - Sylfaen Drethiannol Criccieth yw £931.77. Os bwriedir casglu a hawlio praesept o £1,000 byddai hynny yn golygu cost o £1.07 o Dreth Cyngor Band D ar gyfer y gymuned yma (h.y. £1,000/931.77)
Felly, am bob £1,000 o gynnydd byddai'n costio tai ym Mand D £1.07ychwanegol.

Penderfyniad - Ar sail y drafodaeth ar gyfer y gyllideb ddrafft nid oedd aelodau yn gweld achos i godi lefel y praesept yn 2021-22, ac o ystyried hefyd canlyniadau economaidd y pandemig, y dylid cadw at y praesept cyfredol o £42,000. Nodwyd nad oedd lefel y praesept yn ddigonol bellach ar gyfer costau blynyddol y Cyngor Tref, ac roedd y gyllideb yn ddibynnol ddefnydd o'r arian wrth gefn.

10-12/20 Cynllun Cymunedol

1. Prosiect Cymunedol Cae Crwn

Nodwyd gyda balchder bod y cais i'r Loteri am grant o £20,800 wedi bod yn llwyddiannus. Prosiect mewn partneriaeth gydag Ysgol Treferthyr, gwasnaethau ieuencid, gwirfoddolwyr, Partneriaeth Natur Cyngor Gwynedd, Ffrindiau Gardd Natur a grwpiau eraill. Bydd y prosiect yn cael ei rheoli gan Gwmni Celyn ac adroddiadau cynnydd i'r Cyngor Tref. Roedd cyfarfod maes wedi digwydd yn barod.

Penderfyniad

Derbyn er gwybodaeth a diolch yn fawr iawn i'r Clerc am ei gwaith yn chydgordio a sgwennu'r cais gydag aelodau o Ffrindiau Gardd Natur, Partneriaeth Natur Cyngor Gwynedd a Chwmni Celyn.

2. Map ar gyfer y dref

Roedd Swyddog Cyngor Gwynedd wedi rhoi ei ganiatâd i osod mapiau A1 wedi'u lamineiddio ar fyrddau yn y gwahanol leoliadau cytunwyd arnynt o amgylch y dref

Penderfyniad

Derbyn er gwybodaeth ac aros i weld am ymateb Cyngor Gwynedd i'r cais am ddefnydd grant gwella ein trefi.

3. Adeilad yr Hen Lyfrgell

Roedd y Clerc wedi cael cais am gyfarfod gyda Chyngor Llanidan.

Penderfyniad:

Cytuno nad oedd yn amserol cael cyfarfod ar hyn o bryd - ond angen gwybod os oedd Cyngor Llanidan am rannu costau bargyfreithiwr i sortio perchnogaeth yr adeilad. Dyna oedd y cam nesaf yn y broses.

4. Goleuadau Nadolig 2020

Roedd y goleuadau Nadolig newydd ar y Stryd Fawr yn profi'n boblogaidd. Bydd rhaid tynnu'r goleuadau er mwyn iddyn nhw docio'r eucalyptus yn y Flwyddyn Newydd. Roedd y Clerc wedi gofyn i'r trydanwr am brisio cost tynnu'r goleuadau a'u cadw sef £375 + TAW

Penderfyniad:

Derbyn yr adroddiad.

5. Prosiect Cymunedol Newydd – Enwau, Chwedlau a Chan

Nodwyd bod y cais i gronfa'r Cyngor Tref yng ngofal Age Cymru Gwynedd a Môn am gostau artistiaid proffesiynol ar gyfer y prosiect wedi bod yn llwyddiannus. Roedd darn am y prosiect wedi ei gyflwyno i'r Ffynnon i ofyn i bawb sydd â diddordeb bod yn rhan ohono gysylltu gyda'r Clerc drwy e-bost. Bydd y prosiect yn cychwyn yn y Flwyddyn Newydd.

Penderfyniad:

Diolch i Age Cymru Gwynedd a Môn am ei gefnogaeth.

11-12/20: Archwiliad Allanol 2019/20

Dim ymateb hyd yma gan yr Archwilwyr Allanol-

Penderfyniad:

Derbyn er gwybodaeth

12-12/20: Llwybrau Cyhoeddus gan gynnwys Llwybr 11

Nodwyd bod y Clerc wedi sgwennu at Swyddog Cyngor Gwynedd i gynnig cyfarfod maes – nid oes ymateb wedi dod hyd yma.

Penderfyniad:

Derbyn er gwybodaeth.

13-12/20: Groynes ac Amddiffynfeydd Môr Criccieth

Roedd e-bost wedi ei dderbyn gan Swyddog Cyngor Gwynedd yn cadarnhau bod dau dendr wedi'u cyflwyno am y gwaith a bydd cyhoeddiad maes o law am bwy sydd wedi bod yn llwyddiannus.

Penderfyniad:

Derbyniwyd yr adroddiad gyda diolch

14-12/20: Trafnidiaeth yng Nghriccieth

Yn dilyn y penderfyniad yn y cyfarfod diwethaf i ofyn am gyfarfod maes gyda chynrychiolaeth o'r Cyngor Tref i drafod trafndiaeth yng Nghriccieth, roedd y Clerc wedi sgwennu at Swyddog Cyngor Gwynedd i gynnig ei bod yn cwrdd gyda'r Cyng. Phil Jones.-Cafwyd adroddiad ar lafar o gyfarfod da. Roedd wedi bod yn gyfle i gyfleu nifer o faterion o gonsyrn i'r Cyngor Tref o gwmpas Criccieth gan gynnwys Abereistedd, Lon Fêl, y croesiad rhwng Ty'n Rhos a Waen Helyg. Roedd y Swyddog am ddod 'nôl ag adroddiad yn dilyn ystyriaeth o'r materion. Nodwyd bod unrhyw waith yn ddibynnol ar gyllideb.

Penderfyniad:

Derbyn yr adroddiad a diolch i'r Cyng. Phil Jones a'r Swyddog.

15-12/20: Torri gwair a gwrychoedd yn y dref

Nodwyd yn y cyfarfod diwethaf bod problemau sbwriel yng nghyffiniau'r cwrs golff ger Dylans. Mi wnaeth y Cyng. Phil Jones gynnig mynd i lanhau'r ardal.

Penderfyniad:

Diolch yn fawr iawn i'r Cyng. Phil Jones am ei waith clirio.

16-12/20: Parcio yng Nghriccieth

Dim byd i'w adrodd.

17-12/20: Torri Coed yng Nghriccieth

Re anhawster i geir ar groesffordd yr Esplanade gyda Heol Porthmadog oherwydd tyfiant coed – aros am asesiad ac adroddiad Swyddog Cyngor Gwynedd.

Trafodwyd yn y cyfarfod diwethaf yr angen i dorri lawr y bambŵ ym mhen draw'r pitch and putt tu draw i Dylan's ac mi wnaeth y Cyng. Dr Peter Harlech Jones gynnig i gysylltu gydag unigolyn i ymgymryd â'r gwaith. Cafwyd adroddiad bod yr unigolyn wedi cytuno i dorri'r bambŵ.

Penderfyniad:

Diolch yn fawr iawn i'r Cyng. Dr Peter Harlech Jones am yr adroddiad.

18-12/20 Meinciau Tref Criccieth

Dim byd i'w adrodd

19-12/20 Adroddiad Blynyddol y Cyngor Tref 2019/20

Roedd copïau o'r adroddiad blynyddol wedi eu printio ac ar gael i'r Cynghorwyr i'w casglu o Newday. Byddai'r adroddiad ar y Safle We maes o laws. Roedd wedi ei gylchredeg ar e-bost i Gyngor Gwynedd, Grŵp Cynefin, Adra, Ysgol Trefarthyr, Prif Weinidog Cymru, Pwyllgor y Neuadd Goffa a'r Cambrian News. Roedd llythyr am waith y Cyngor Tref ynghyd â chopi o'r adroddiad wedi'i ddanfôn i'r Arglwydd Dafydd Elis Thomas AS a Liz Saville Roberts AS.

Penderfyniad:

Diolchwyd yn fawr iawn i'r Clerc am ei gwaith.

20-12/20 Derbyniadau

Loteri Genedlaethol – Prosiect Cae Crwn £10,400

21-12/20: Taliadau

| | |
|--|-------------------------|
| • Cyllid y Wlad Yswiriant Gwladol (PAYE) | £25.70 (siec 101430) |
| • Cyflog Clerc (Tachwedd) | £785.50 (siec 101431) |
| • Costau Clerc | £326.72(siec 101432) |
| • R.J. Electrics | £2569.14 (siec 101433) |
| • Cyngor Gwynedd | £6,000.00 (siec 101434) |
| • Wales Print | £297.00 (siec 101435) |

Penderfyniad:

Rhodddwyd caniatâd i'r Clerc i dalu'r biliau

Daeth y cyfarfod i ben 8.10 y.h.

Cynhelir cyfarfod nesaf y Cyngor Tref ar Nos Fawrth 12 Ionawr 2021.

****Bydd y rhaglen yn cau 4 Ionawr 2021****

Dr Catrin Jones
Clerc

Atodiad 1 Cyllideb Ddrafft 2021-22

Incwm

| | |
|--|----------------|
| Praesept | £42,000 |
| Arall (trosglwyddiad o arian wrth gefn) | £21,310 |
| Cyfanswm | £63,310 |

Gwariant

| | |
|------------------------|----------|
| Cyflog | £9,950 |
| Cyfieithu | £3,000 |
| Yswiriant | £2,000 |
| Cynnal llwybrau | £600 |
| Torri Gwair | £5,000 |
| Rhent stafell | £1,000 |
| Stampiau | £150 |
| Costau swyddfa | £150 |
| Aelodaeth | £400 |
| Cyfrifon (archwilio) |£800 |
| Cyrsiau |£700 |
| Nadolig | £5,000 |
| Sul y Cofio |£25 |
| Deddf data |£35 |
| Costau Clerc swyddfa | £1,000 |
| Costau Clerc teithio |£500 |
| Toiledau | £6,000 |
| Manion/arall | £3,000 |
| Cyfraniad Neuadd Goffa | £5,000 |
| Cyfraniadau eraill | £5,000 |
| Prosiectau | £14,000 |

CYFANSWM CYLLIDEB

£63,310